Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 64/2018
Dyddiad cyhoeddi: 11/12/2018

# Adolygiad o'r Rhaglen Blaenoriaethau Sgiliau

**Crynodeb Gweithredol**

## 1. Cefndir

1.1 Cynlluniwyd y Rhaglen Blaenoriaethau Sgiliau er mwyn galluogi'r sector Addysg Bellach i ymateb i fylchau a ganfuwyd gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, wrth edrych ar sgiliau lefel uwch mewn swyddi penodol ar lefel ranbarthol, a datblygu darpariaeth i fynd i'r afael â'r bylchau hyn. Mae hefyd yn cynorthwyo Sefydliadau Addysg Bellach i ddatblygu sail sgiliau eu staff drwy ddatblygiad proffesiynol parhaus.

1.2 Mae'r rhaglen yn cynnwys tair Elfen: Darparu Sgiliau Lefel Uwch (Elfen 1), Datblygu Gallu (Elfen 2), ac Arloesi (Elfen 3). Darparwyd y tair Elfen yn rowndiau 2016-17, ond gollyngwyd Elfen 3 ar gyfer rowndiau 2017-19.

## 2. Nodau a methodoleg yr ymchwil

2.1 Yn yr adroddiad terfynol hwn cyflwynir canfyddiadau'r ymchwil sy'n seiliedig ar y ffynonellau data a ganlyn:

- Adolygiad o ddogfennau'r rhaglen a chynlluniau prosiectau
- Adolygiad o adroddiadau cynnydd gan gonsortia Addysg Bellach a cholegau unigol
- Cyfweliadau gyda rhanddeiliaid allweddol yn Llywodraeth Cymru
- Cyfweliadau gyda rhanddeiliaid allweddol yn y Partneriaethau Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol a'r Cynghorau Sgiliau Sector
- Cyfweliadau gyda rheolwyr y rhaglen yn y sefydliadau AB arweiniol
- Cyfweliadau gyda rheolwyr y rhaglen a/neu staff academaidd mewn darparwyr AB
- Cyfweliadau gyda chyflogwyr sy'n cael budd o'r rhaglen

## 3. Y prif ganfyddiadau

3.1 Mae lefel uchel o fodlonrwydd â'r Rhaglen Blaenoriaethau Sgiliau ymhlith darparwyr AB.

- Y broblem fwyaf cyffredin â'r Rhaglen Blaenoriaethau Sgiliau a nodwyd gan bawb a fu'n ymwneud â rownd gyflawni 2016-2017 oedd yr amserlen a oedd yn cael ei gorfodi gan y cylch o

flwyddyn yn unig rhwng y cais cychwynnol a'r cyfnod cwblhau. Er hyn, mae'r newid i gylch o ddwy flynedd ar gyfer 2017-2019 wedi cael ei groesawu at ei gilydd.

- Roedd gwahaniaeth rhwng barn tîm rheoli'r Rhaglen Blaenoriaethau Sgiliau a'r rhanddeiliaid am y cydbwysedd perthynol rhwng y tair Elfen a barn y darparwyr AB. Mae sefydliadau AB yn dal i bwysleisio'r budd y maent hwy wedi'i gael o'r gweithgareddau Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) y buont yn rhan ohonynt drwy'r Rhaglen.
- Mae'r model consortiwm wedi cael ei hwyluso gan y cydweithredu sy'n bodoli'n barod o ganlyniad i raglenni ESF, ac mae wedi ysgogi patrymau o drosglwyddo dysgu a gwybodaeth rhwng sefydliadau AB; fodd bynnag, nid oes llawer o ddysgu a rhannu arferion da rhwng y consortia ar hyn o bryd.
- Mae'r darparwyr AB wedi dehongli lle'r Rhaglen Blaenoriaethau Sgiliau yn eu darpariaeth sgiliau yn bennaf fel llenwi bylchau yn y ddarpariaeth sy'n cael ei hariannu gan gyllid ESF.
- Yn unol â'r dehongliad hwn, mae sefydliadau AB yn credu bod y Rhaglen Blaenoriaethau Sgiliau yn cynnig gwerth ychwanegol drwy DPP a gweithgareddau arloesi;
- Mae llai o weithgareddau wedi digwydd dan Elfen 1 nag a ddisgwylid, oherwydd:
    - Gorgyffwrdd tybiedig â rhaglenni ESF
    - Amserlenni byr
    - Tybiaeth na fyddai digon o ddarpar ddysgwyr yn cael budd, gan fod y buddiolwyr yn cael eu cyrraedd yn barod dan ESF
    - Tybiaeth y byddai mwy o fudd i'w gael drwy fuddsoddi mewn gweithgareddau Elfen 2 ac Elfen 3

- O ganlyniad i'r prinder gweithgareddau Elfen 1 roedd arian heb ei wario o'r dyraniadau cyllideb cychwynnol yn 2016-2017. Mae sefydliadau AB wedi dysgu o'r profiad hwn fel y gwelir o'u cynlluniau ar gyfer 2017-2019.
- Er bod rhai'n gwrthwynebu'r model cyllido sy'n seiliedig ar gonsortia, efallai nad yw'n gymaint o broblem ag y tybiwyd yn flaenorol gan fod gan y colegau arian heb ei wario o'u cyllidebau o hyd.
- Mae tybiaeth ymhlith y randdeiliaid bod (a) rhywfaint o effeithiau dadleoli yn gysylltiedig â'r Rhaglen Blaenoriaethau Sgiliau a (b) diffyg ymgysylltu â chyflogwyr a grwpiau sy'n cynrychioli cyflogwyr.
- Mae'r Partneriaethau Sgiliau a Dysgu Rhanbarthol a'r Cynghorau Sgiliau Sector wedi bod ar ymylon y Rhaglen Blaenoriaethau Sgiliau, sy'n wahanol i'r rôl fwy canolog a oedd ganddynt wrth ddarparu rhaglenni ESF. Fodd bynnag, mae tystiolaeth bod hyn yn newid yn y cynlluniau darparu ar gyfer 2017-2019.
- Yn gyffredinol, roedd darparwyr AB yn credu mai prif fantais y Rhaglen Blaenoriaethau Sgiliau oedd ei hyblygrwydd a'i gallu i addasu o'i chymharu â chyllid ESF.
- Oherwydd y prinder gweithgareddau Elfen 1 mae'n anodd nodi busnesau sydd wedi ymgysylltu'n ddwfn dan yr elfen hon o'r rhaglen; er hyn, mae busnesau'n cael budd o'r Rhaglen Blaenoriaethau Sgiliau ac maent yn fodlon â'r ymgysylltu, er nad ydynt bob amser yn gallu priodoli'r gwasanaeth y maent wedi'i dderbyn i'r Rhaglen Blaenoriaethau Sgiliau wrth ei henw. Mae'r cyflogwyr yn cyfeirio'n benodol at uwchsgilio mewnol fel un o fanteision gweladwy bod yn rhan o'r Rhaglen Blaenoriaethau Sgiliau.
- Mae buddsoddi ar y cyd yn dal yn her, ar ôl blynyddoedd lawer o ddarparu sgiliau am ddim i bob pwrpas.

3.2 Trafodwyd llawer o'r canfyddiadau hyn yn barod yn yr adroddiad interim, ac mae'r argymhellion isod yn seiliedig ar ddiweddaru'r canfyddiadau hyn drwy ail rownd o waith maes yn haf 2017.

## 4. Casgliadau/Argymhellion

4.1 Ar sail Camau 1 a 2 yr adolygiad, a chan adeiladu ar y canfyddiadau a rannwyd yn gynharach â thîm rheoli'r rhaglen, mae'r adroddiad yn gwneud yr argymhellion a ganlyn:

- Dylai Llywodraeth Cymru wneud mwy i hysbysebu'r rhaglen, gan fod hyrwyddo'r cyfleoedd hyn yn gallu bod yn anodd ar adegau;
- Dylai Llywodraeth Cymru gyfathrebu a gwahaniaethu rhwng y Rhaglen Blaenoriaethau Sgiliau a rhaglenni tebyg. Gallai hyn helpu cyflogwyr i ddod i adnabod y rhaglen yn well a gweld pa fudd y gall ei gynnig; a
- Dylai Llywodraeth Cymru ystyried gweithredu system fwy strwythuredig a chyson o gasglu data ynglŷn ag allbynnau a deilliannau gweithgareddau er mwyn cefnogi gwaith monitro a gwerthuso parhaus, gan ei bod yn anodd cymharu'r canlyniadau a roddwyd yn yr adroddiadau terfynol mewn gwahanol rannau o Gymru.

Awduron yr Adroddiad: Dr Andrew Engeli, Philip Wilson, Kimberley Wigley a Hannah Davies

wavehill
social and economic research

Adroddiad Llawn yr Ymchwil: Andrew, E., Wilson, P., Wigley, K. a Davies, H., (2018). *Adolygiad o'r Rhaglen Blaenoriaethau Sgiliau – Adroddiad Terfynol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Adroddiad 64/2018 gan Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth
Ar gael yn; https://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-skills-priority-programme/?lang=cy

Safbwyntiau'r ymchwilwyr, ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru, yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:
Kimberley Wigley neu Hannah Davies
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ

Ebost: Kimberley.Wigley@gov.wales
Ebost: Hannah.Davies018@gov.wales

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-78964-352-7